Celt
5126
9.30

Celt 5126.9.30

HARVARD
COLLEGE
LIBRARY

# TRAITHAWD

AR

# Ddechreuad a Chynydd y Cymry

YN

## UTICA A'I HAMGYLCHOEDD.

GAN

LLEWELYN D. HOWELL, YSW.

---

Buddugol yn Eisteddfod Utica, Ion. 2, 1860.

---

ROME, N. Y.
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN R. R. MEREDITH.
1860.

Celt 5126.4.30

Apr 23 1930

Paul D. Jones

# BEIRNIADAETH.

GAN Y PARCH. R. EVERETT.

"NID yw Ezra yn gwneyd un honiad at ardderchogrwydd ysgoleigaidd, yn neillduol ei iaith. Traetha ei ffeithiau yn syml, goleu a diaddurn. Mae traithawd "Ezra" yn dynodi llafur mawr, a gwaith lled galed, ac y mae ei bethau wedi eu trefnu yn briodol a deallus. Lleinw yr ysgrif hon fwlch yn hanes foreuol ein cenedl yn America, ag yr oedd mawr eisiau ei lanw. Teilynga yr ysgrifenydd ddiolch cynnes ei genedl am yr ymdrech egniol a wnaeth i chwilio allan a chasglu yr hanes o enau yr ychydig dystion a geir o blith yr hen sefydlwyr, cyn eu rhifo gyda chynnulleidfa y meirw; ac er na bu iddo gystadleuydd, cyflawnodd "Ezra" ei waith yn dda—a barnym yn ostyngedig ei fod yn teilyngu y brif wobr." "R. EVERETT."

Entered according to Act of Congress in the year 1869,
BY R. R. MEREDITH,
In the Clerk's Office of the Northern District of New York.

# TRAITHAWD.

SYLWADAU ARWEINIOL.

Byddai traithawd cywir ac ymarferol ar y testyn uchod yn ddyddorol a defnyddiol, nid yn unig i'r oes hon, ond hefyd i genedlaethau sydd eto heb eu geni.

Ond mae tri pheth o leiaf ag sydd yn rhwystrau mawrion ar y ffordd i ddwyn hyn oddiamgylch:

*Yn gyntaf.* Y mae yr hen Gymry a breswylient Utica a'i hamgylchoedd yn amser dechreuad y sefydliad, bron i gyd wedi meirw, neu wedi symud i Daleithau eraill.

*Yn ail.* Nid oes ond ychydig o gofnodion wedi eu cadw am amgylchiadau y Cymry a fuant yn preswylio yn yr ardaloedd.

*Yn drydydd.* Y mae yn anhawdd cael beirniad cymhwys i adolygu cywirdeb y ffeithiau a nodir ar y testyn; ond er yr holl anhawsderau hyn, cynnygiaf at y gorchwyl gydag un calondid, sef fod y beirniad a ddewiswyd gan Bwyllgor yr Eisteddfod, mor gymhwys a neb sydd yn fyw yn awr i roddi barn a dedfryd ar y cyfansoddiadau.

Fy nyben yn benaf yn y traithawd hwn yw cael *cywirdeb* yn y ffeithiau a ysgrifenaf, yn hytrach nac ymgyraedd at ardderchogrwydd mewn iaith i'w gosod allan ger bron y cyhoedd.

Gan mai "Dechreuad a Chynnydd y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd" yw y testyn, meddyliwyf mai nid anmhriodol yn gyntaf oll ydyw rhoddi darluniad byr o Utica ei hunan.

Mae y ddinas hon wedi cael ei hadeiladu yn nghanolbarth Talaeth Efrog Newydd, yn un o'r manau prydferthaf, ar lan ddeheuol yr afon Mohawk. Y mae yn sefyll 96 o filldiroedd i'r gorllewin o Albany. Y mae yn nodedig o herwydd ei hiachusrwydd, a'i dymunoldeb ar lawer o ystyriaethau fel cartref i breswylio ynddi, ac y mae ei thrigolion yn awr yn nghylch 25,000, yn cael eu gwneyd i fyny o wahanol genedloedd, ac y mae amrai gannoedd o honynt yn Gymry.

Y mae enw Utica yn adnabyddus i genedl y Cymry tu yma a thu draw i'r môr. Dichon ei fod yn fwy felly na'r un ddinas yn yr Unol Daleithau, oddyeithr Efrog Newydd, am fod cynnifer o Gymry wedi bod yn preswylio yn Utica a'i hamgylchoedd, a bod y rhai sydd yn preswylio yma yn bresenol yn dwyn cysylltiad â channoedd sydd yn byw yn yr Hen Wlad; ac â llaweroedd sydd wedi symud oddiyma i drigfanu mewn gwahanol fanau yn y wlad hon.

Enw y gymydogaeth lle saif y ddinas enwog hon ar y cyntaf oedd *Fort Schuyler*, am fod yma safle fechan i filwyr Lloegr, y rhai a wylient symudiadau y Ffrancod a'r Indiaid. Rhoddwyd yr enw hwn ar y lle o barch i'r Milwriad Peter Schuyler. Adeiladwyd y safle filwraidd hon oddeutu y flwyddyn 1758, ar lan y Mohawk. Nid oedd yn y lle hwn yn y flwyddyn 1786, ond tri neu bedwar o dai cyffion (*log houses*), a'r amgylchoedd yn llawn coedydd ac anialwch. Ymddengys fod cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle, pan edrychom ar luosogrwydd yr adeiladau sydd yn y ddinas, wedi eu gwneyd a'u haddurno gyda y priddfeini ardderchocaf, a'r meini marmor gwychion. Dywedir mai ystyr yr enw Utica ydyw "*O amgylch y Bryn.*" Pa amser yr arferwyd yr enw hwn gyntaf i ddynodi y lle sydd anhysbys; ond y mae genym hanes fod yr enw hwn wedi ei bennodi ar y lle mewn gweithrediad Seneddol o gorfforiad y ddinas, yn y flwyddyn 1817.

Mewn trefn i sylwi gyda gradd o fanyldra ar y testyn, bydd y pethau canlynol i ymofyn yn eu cylch, ac i sylwi arnynt yn y traithawd:

I. Yr ymfudiadau o Gymru i'r America a'i achosion.

II. Y dyfodiaid cyntaf o Gymru i Utica a'i chylchoedd.

III. Amgylchiadau bydol y sefydlwyr cyntaf a'r caledi a ddyoddefasant.

IV. Cynnydd graddol y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd.

V. Cymeriad cyhoeddus y Cymry fel cenedl yn America.

VI. Sefyllfa crefydd yn mysg y genedl.

VII. Eu rhagoriaethau a'u diffygion fel cenedl.

---

## PENNOD I.

### YR YMFUDIADAU CYNTAF O GYMRU I AMERICA A'I ACHOSION.

Y mae cynnydd preswylwyr y ddaear yn gwneuthur ymfudiadau i diroedd anmhoblogaidd yn orfodol; ond gorchwyl anhawdd

gan ddyn ydyw ymadael am byth â gwlad ei enedigaeth—hen ardaloedd ei faboed, a thir beddrod ei hynafiaid. Ni wna hyn heb ystyriaeth. Rhaid cael llawer o amgylchiadau i gydweithio er ei ddwyn i wneuthur y penderfyniad o ganu yn iach â hen wlad ei dadau. Y mae ei wlad newydd fabwysiedig yn ddyeithr iddo. Y mae yn cael ei lethu i lawr yn ei wlad ei hun, ac nis gall wybod pa pa un ai ei ofidiau presenol ynte'ei ofnau dychymygol yw y croesau anhawddaf eu dwyn. Ond wedi hir fyfyrdod, a chydmaru, y mae yn gwerthu y cwbl a fedd, ac yn ymadael â'i wlad.

Y prif achosion o'r ymfudiadau o Gymru, ydynt gormes yr eglwys wladol, trymder y trethi treisiol, ac anghyfiawnder perchennogion tiroedd a'u goruchwylwyr. Cywir y dywedodd un ysgrifenydd yn Mhrydain, "Mai gormes Prydain sydd wedi poblogi America." Cyhoedda "Baner Cymru," am Medi 14, 1859, fod rhifedi yr ymfudwyr a foriasant o'r deyrnas gyfunol yn ystod yr amser o ddechreu y flwyddyn 1815, hyd ddiwedd y flwyddyn 1858, yn 4,797,166; o'r rhai hyny aeth *dwy filiwn, wyth gant a phedwar ugain mil a phedwar cant a thri*, i'r Unol Daleithau.

Bu yr ymfudiad am y deng mlynedd diweddaf yn agos i *dri chan' mil* bob blwyddyn. Yn y cyfrif hwn y mae miloedd o Gymry wedi dyfod trosodd i'r wlad hon. Gormes ac angen a'u cychwynodd o'u hen gartrefi. Ond y sawl a ddilynant sobrwydd, diwydrwydd a chrefydd yn y wlad hon, a fyddant cyn hir mewn gwell sefyllfa na'u gormeswyr, ac yn wir y mae llawer o honynt wedi cyrhaedd y sefyllfa hono yn barod.

Byddai yr awydd am ymfudo i'r America yn cael ei gyfrif yn bechod, yn haeddu diarddeliad yn eglwysi Cymru hanner can' mlynedd yn ol; ond yn raddol ennillodd y goleuni ei ffordd, ac argyhoeddwyd y wlad. Y maent yn awr yn barod i gynghori a chynnorthwyo eu gilydd i ymofyn am wlad sydd well; ac y mae llawer o honynt yn dyweyd fel ein tadau pererinol gynt (*pilgrim fathers*), "*Awn ymaith o'r Aipht, y mae yn well i fyw yn ngwlad Canaan.*"

Dynion duwiol a da a ymosodasant yn erbyn ymfudiaeth. Ond os ydynt yn adnabod yn y nef sefyllfaoedd llwyddiannus eu plant a'u hwyrion ar y ddaear, y maent yn cydnabod eu camgymeriad, ac yn bendithio Duw am ei ddaioni a'i ofal rhagluniaethol tuag at eu hiliogaeth yn y byd gorllewinol hwn.

## PENNOD II.

### Y DYFODIAID CYNTAF O GYMRU I UTICA A'I HAMGYLCHOEDD.

Ymddengys nad oedd ond ychydig o Gymry yn Utica a'i hamgylchoedd cyn amser y Chwyldroad.

Ond y mae genym enwau personau ar gofrestr hanesyddiaeth ag y mae genym sail i gredu eu bod yn perthyn i'n cenedl ni. Yn mysg y personau, y rhai a dderbyniasant yn anrheg y tir lle y saif dinas Utica, gan Siôr yr Ail, yr ydym yn cael yr enwau canlynol:

Charles Williams, Paul Richards, a Lefi Stephens, yr olaf oedd un o berchenogion y cerbyd cyhoeddus cyntaf a redodd o'r ddinas, a gallem grybwyll amrai *enwau* Cymreig yn gymysgedig âg eraill o anturiaethwyr cyntaf yr ardaloedd hyn; ond gan nad oes genym ddim ond eu henwau, ni a ymattaliwn, gan brysuro at amser mwy diweddar, ac ymsefydlwyr mwy adnabyddus.

Byddai yr ymfudwyr cyntaf o Gymru i America yn arfer glanio yn Philadelphia, ac oddiyno y symudodd llawer o honynt i gymydogaethau Utica.

Nid rhyw daith fechan a dibwys oedd dyfod o lanau y môr i Utica y pryd hyn. Clywais rai o'r hen ymfudwyr yn adrodd eu helyntion ar eu teithiau. Nid oedd yr ychydig ffyrdd ag oedd wedi eu hagor ond anhawdd iawn eu teithio, yn enwedig yn nechreu, ac yn niwedd y flwyddyn. Yr oedd yn rhaid ymddibynu ar y gwynt i ddyfod o Efrog Newydd i Albany, ac wedi hyny nid oedd un cerbyd rheolaidd i'w gael i ddyfod oddiyno i Utica. Cymerai i'r teithwyr yr amser gynt o wyth i ddeg diwrnod i ddyfod o Albany i Utica, ac wedi hyn os byddai rhai o'n cenedl yn dewis myned i fryniau Steuben, byddai raid iddynt gysgu noswaith neu ddwy yn y coed cyn cyrhaedd pen y daith.

Wrth deithio i'r gorllewin o Albany, byddai rhai yn dewis dilyn y ffyrdd culion ac anwastad trwy y coedydd a'r anialwch, ac eraill a ddewisent fyned gyda y badau ar hyd afon Mohawk; a byddai llawer o'r rhai hyny yn aml yn gorfod cerdded llawer o'r ffordd ar hyd glanau yr afon, trwy y dyrysni a'r anialwch, tra y byddai y rhai analluog i gerdded yn cael eu cludo yn arafaidd gyda y dodrefn ar y badau ar hyd yr afon. Nid oedd ryfedd eu bod yn lled hir ar eu teithiaunid. Nid oedd ganddynt y pryd hyn ddim ffordd well i weithio y badau yn y blaen na'r defnydd a allent wneyd o'u hyswyddau gyda pholion hirion i ategu yn ngwaelod yr afon.

Gwelwn yn hawdd fod y rhan hon o'r daith yn beryglus ac an-

nymunol iawn. Yr oedd y wlad y pryd hyn yn newydd, ac heb ei diwyllio. Yr oedd llawer o gorsydd gwlybion, a llawer o ddwfr llonydd yn aros mewn manau yn nyffryn y Mohawk, fel yr oedd y teithwyr dyeithr yn aml yn cyfarfod â chlefydau a gwahanol fathau o afiechyd, yr hyn beth sydd yn fynych yn cyfarfod âg ymfudwyr mewn lleoedd cyffelyb.

Ar yr amser hwn, pan nad oedd son am ddinas Utica, yr oedd amddiffynfa fechan yn y lle, dan yr enw rhag-grybwylledig, "Fort Schuyler." Safai hon heb fod yn mhell oddiwrth y fan y mae y bont yn bresenol, sydd i fyned dros yr afon, o heol Genesse—ac yn rhywle yn agos i'r fan hon, y byddai y teithwyr yn glanio, ac yn cael eu dodrefn allan o'r badau oddiar y Mohawk, ac oddiyma y byddai yr ymfudwyr yn ymwasgaru i wahanol fanau i bob tu i'r man lle y saif dinas Utica yn awr.

Ymddengys mai cael gwlad iachus i breswylio ac i gartrefu ynddi oedd yn benaf mewn golwg yr amseroedd hyny gan ein cenedl, yn hytrach na gwlad fras.

Pe buasent yn meddwl am dir bras a gwastadedd toreithiog, buasent yn debyg o gael eu boddhau ar lanau yr afon, ac yn rhywle yn y dyffryndir.

Ond yr oedd llawer o'r hen genedl y pryd hyny yn dewis dringo i ochrau y bryniau, ac ni foddlonai llawer o honynt nes iddynt weled penau mynyddoedd uwchaf Steuben. Yno yr oeddent yn gallu anadlu mewn awyr mor deneu ac mor iachusol ag a anadlasant erioed ar fynyddoedd hyfryd gwlad eu genedigaeth. Gallent oddiyno edrych ar yr holl ddyffrynoedd oddiamgylch—o Utica i Steuben, oddyeithr ychydig iawn o eithriadau, yn un goedwig wyllt ac annhoredig; ac fel profion o iachusrwydd y wlad, y mae rhai o'r hen bobl a sefydlasant gyntaf yn Steuben yn aros yn fyw ac yn iach hyd heddyw. Y mae llawer eraill wedi meirw yn hen ac yn llawn o ddyddiau.

Y mae yn Steuben a Remsen eto lawer o hîl Gomer yn gwneyd defnydd cyffredin o'r hen iaith, ac y maent yn hoffi llawer o bethau ag sydd yn perthyn i ni fel cenedl Gymreig; ac mewn gwirionedd, y maent hwy eu hunain yn hoff o gael y cyfleustra i amlygu eu perthynas â'u hynafiaid Cymreig. Y rhai hyn ydynt y bobl sydd yn anrhydedd iddeu cenedl, ac nid y rhai hyny sydd yn cymeryd arnynt eu bod wedi anghofio eu hen iaith cyn dysgu yr un arall yn ei lle.

Y mae yr hen iaith Gymreig heddyw yn swnio mor soniarus ar hyd bryniau a broydd prydferth a hyfryd Steuben a Remsen ag y clywyd hi erioed ar hyd broydd a bryniau iachusol ein genedigol wlad.

Ond mewn perthynas i'r amser y daeth y Cymry cyntaf i breswylio i'r ardaloedd hyn, y mae yn ymddangos yn beth lled anhawdd ei wybod yn berffaith; ond y mae genym sicrwydd fod yma amrai Gymry wedi dyfod i ymsefydlu tua'r flwyddyn 1800, a *rhai* yn flaenorol i'r flwyddyn hono.

Daeth William P. Jones (William Siôn Parry), Penymynydd, Steuben, i Fort Schuyler, tua diwedd Awst, 1795, sef yn yr un flwyddyn ag y daeth Griffith Rowland, ac eraill, am ba rai y crybwyllir eto. Yr oedd yn dyfod gyda chwmni G. Rowland, o New York i Albany; ond daeth gyda rhyw lanc arall o Albany yn mlaen ar hyd y ffordd trwy'r coed, tra'r oedd y teuluoedd ag y daethant yn eu cwmni yn dyfod i fyny ar hyd yr afon Mohawk, ac felly cyrhaeddasant Fort Schuyler yn gyntaf. Dywedai Wm. Jones yn aml yn ei fywyd, mai efe a'i gwmni oedd y rhai cyntaf a ddaethant o Gymru i'r ardal hon, a gofynai John Post, gwestywr y lle, o ba wlad y daethent, a dywedent hwythau mai o Gymru (*Wales*); ond dywedodd Mr. Post na chlywsai erioed son am Gymru nes iddynt grybwyll am Dywysog Cymru (*Prince of Wales*).

Ysgrifenai un cyfaill ataf yn ddiweddar fel y canlyn:—"Yr oeddwn yn Utica bedair blynedd a deugain yn ol, yn ymddyddan â dau Gymro, dywedasant wrthyf eu bod hwy wedi byw yn Utica lawer o flynyddoedd, a'u bod yn cofio pan nad oedd yn Fort Schuyler ond pedwar o dai cyffion, ac un ysgubor, ac un teulu yn byw ynddi. Yr holl eiddo a berthynai i Utica, neu yn hytrach i Fort Schuyler y pryd hyny, oedd un fuwch, ac un hen geffyl gwyn. Yr oedd y tai hyn ar heol Whitesboro," canys hon yn nghyda heol Main, a'r pen nesaf i'r afon o heol Genesee, oedd y prif heolydd, yn amser dechreu adeiladu y ddinas.

Yr ydym yn deall fod Richard Francis wedi dyfod yma o sir Benfro, D. C., tua'r flwyddyn 1797, ac y mae yn debyg fod amrai o Gymry wedi dyfod gydag ef, ac ymsefydlu yn y lle yr un amser. Daeth John Adams, i'r un lle yn y flwyddyn 1800. Ac yn y flwyddyn ganlynol, dilynwyd y rhai hyn gan luaws (fe allai gant neu ychwaneg) o bobl ieuainc calonog ac anturiaethus, y rhan fwyaf o Ddeheudir Cymru; ac er nad oedd neb o honynt y pryd hyny yn feddiannol ar lawer o gyfoeth, daethant oll yn fuan i sefyllfaoedd cysurus, a rhai o honynt yn lled gyfoethog. Yr oedd y rhai hyn oll yn ddynion diwyd a llafurus iawn gyda eu gwahanol alwedigaethau. Y maent yn awr oll, gydag ychydig iawn o eithriadau, wedi myned i'r dystaw fedd, er ys llawer dydd. Ond y mae llawer o honynt wedi gadael ar eu holau blant ac wyrion, i gofio yn barchus am eu henwau, ac i fwynhau ffrwyth eu llafur a'u diwydrwydd. Ni allaf enwi ond ychydig o honynt ar hyn o bryd.

Yn mysg y rhai hyn yr oedd y rhai canlynol:—y Parchedigion John Stephens, a James Harries, dau weinidog gyda y Bedyddwyr; a'r Meistriaid Abraham Williams, John Reed a chwech o feibion, Joseph Harries, David Thomas, Wm. Rees, Simon John, John Nicholas, John Rees, Nathaniel Davies, James Philips, James Jones, David Reed, John Reed, Daniel Richards, Evan Owens, Rees Jones, a Samuel George. Daeth Edward Baldwin i'r wlad hon yn y flwyddyn 1800; ond ni sefydlodd yn y lle hwn hyd y flwyddyn 1802. Yr oedd ef y pryd hyn yn arfer pregethu gyda y Bedyddwyr. Bu Rowland Griffiths, wedi hyn yn pregethu am flynyddau gyda yr Annibynwyr. Yr oedd amrai o'r rhai hyn a'u teuluoedd gyda hwy, ac y mae ambell un o honynt eto yn fyw, ac wedi bod am lawer o flynyddau yn ddinaswyr parchus yn y wladwriaeth, ac yn aelodau teilwng mewn gwahanol eglwysi, ac yn grefyddwyr llafurus a defnyddiol.

Y mae llawer o hiliogaeth yr hen sefydlwyr hyn wedi ymgymysgu gyda chenedloedd eraill; a llawer o honynt yn dewis ymarfer yr iaith Saesonaeg, nid ydyw hyn yn beth i'w ryfeddu gymaint, pan ystyriom mai hon ydyw iaith y wlad y maent wedi byw ynddi am gynnifer o flynyddau. Eto, y mae llawer o'r rhai hyny ag sydd wedi eu geni yn y wlad hon, ac yn arfer yr iaith (bron yn gyfan-gwbl) gyda eu gwahanol alwedigaethau bydol, yn dewis yr iaith Gymraeg i'w harfer yn benaf gyda phethau crefyddol.

Felly, y mae llawer o Americaniaid genedigol yn credu fod sain pregethiad yr efengyl yn yr hen iaith Gymraeg, yn llawer mwy effeithiol a mwy dymunol i'w gwrando na dim a glywsant erioed yn yr iaith Americanaidd. Clywais un yn dyweyd am y bobl ieuainc yn ei ardal ef, pan y maent yn dyfod i sobrwydd yn achos eu heneidiau, er eu bod yn nghwmni y Saeson, eto, y maent yn dyfod i ymofyn am aelodaeth yn yr Eglwysi Cymreig.

---

## PENNOD III.

### AMGYLCHIADAU BYDOL Y SEFYDLWYR CYNTAF, A'R CALEDI A DDYODDEFASANT.

Y MAE llawer yn yr hen wledydd heb gael ond ychydig o brofiad o'r hyn sydd i'w gael mewn gwlad newydd. Meddylia rhai yn Nghymru, pe y gallent ond unwaith groesi y môr, yn ddiogel, yna y byddai holl achosion eu gofidiau wedi eu gadael ar ol. Dychymygent fod holl drigolion America yn dysgwyl yn awyddus

am eu dyfodiad i'r wlad, er cael eu cymhorth i fwynhau pleserau, a bwyta o ffrwythau a danteithion goreu y wlad.

Meddylient, ond cyrhaedd yma, fod yr aur a'r arian fel ceryg yr afonydd, ac yn barod at eu gwasanaeth; ond nid yn hir y byddent yma heb gyfnewid eu meddyliau, gwelent yn fuan mai trwy lafur a diwydrwydd y mae cael elw yma fel yn mhob man arall.

Nid oes genyf ddim yn well i'w ysgrifenu ar y gangen hon na rhoddi cyfieithiad mor gywir ag y medraf o'r hyn a dderbyniais gan gyfaill caredig ac ewyllysgar. Dywed fy nghyfaill fel y canlyn:—

"Yn mis Mawrth, 1795, yn nghylch deuddeg o deuluoedd a ymadawsant â'u gwlad enedigol, ac mewn llong enwog yr hw y liasant dros Fôr y Werydd, a thiriasant yn ddiogel yn Efrog Newydd, wedi mordaith o *bedair wythnos ar ddeg*. Ar ol ychydig arosiad yn E. N., darfu i bump o'r teuluoedd uchod, sef Griffith Rowlands, William Williams, Evan Davies, Hugh Roberts, ac Owen Griffiths (yn gwneyd gyda'u gilydd yn nghylch deunaw o bersonau), ymadael o'r ddinas, tua rhyw fan mwy ffafriol i ddechreu sefydliad. Cymerasant long fechan yn E. N., daethant i fyny yr afon Hudson, ac i Albany, ac oddiyno dros y tir i Schenectady, ac yno cymerasant fath o fâd, a elwid y pryd hyny *bateau*, ac felly gweithiasant trwy drofeydd yr afon Mohawk, yn dra arafaidd, nes o'r diwedd, y cyrhaeddasant y lle y mae dinas Utica yn bresenol arno.

Cynnwysai y lle y pryd hyny, un tŷ *frame*, ac wyth neu ddeg o dai cyffion. Yr oedd un o'r tai cyffion yn cael ei gadw yn *dafarn* yn y fan y mae *Bagg's Hotel* yn bresenol. Wedi aros ychydig yn Utica, daethant i'r penderfyniad i fyned i Steuben, yn swydd Oneida, yn nghylch ugain milldir i'r gogledd o'r lle hwn; ac mewn ychydig o ddyddiau yr oeddent yn barod i'r daith, wedi llogi pedrolfen, pedwar o ychain, ac un ceffyl yn y blaen i reoli y wêdd, yn yr hon y rhoddasant eu dodrefn, eu plant, a'u holl eiddo, ac yna cychwynasant tua'u cartref newydd. Yr oedd sefyllfa y ffyrdd yr amser hyn y fath fel nad allent deithio ond o bump i saith milldir y dydd. Wedi gadael Utica, yn y boreu, cyrhaeddasant at odreu *Deerfield Hill*, y dydd cyntaf, lle y bu raid iddynt aros dros y nos, heb un math o letty, ond yr anialwch mawr o'u hamgylch, a'r awyrgylch yn eu gorchuddio uwch ben. Yr oedd y gwlaw yn ymdywallt trwy yr holl nos, a phob un drosto ei hun yn ymofyn am y lle goreu ag a allai ei gael i lechu, ac os gallent gael ychydig o gysgod wrth ochr boncyff neu goeden, yr oeddent yn meddwl eu bod yn gwneyd yn gampus. Llwyddodd un o'r gwronesau oedd yn eu mysg gyda'i baban, yn nghylch tair wyth-

nos oed, i fyned dan wraidd coeden ag oedd wedi ei droi i fyny gan nerth y gwynt, lle y meddyliai ei bod yn ddiogel rhag niweid oddiwrth yr elfenau; ond pan ddaeth goleuni y dydd, gwelai er ei syndod, fod ei baban wedi ei addurno yn rhyfedd dan effeithiau pridd yr America, yr hwn a wnaethai ei ffordd ato yn gymysgedig â dwfr gwlaw, ac a arosasai yn bur helaeth ar hyd gwahanol ranau o'i gorff.

Boreu dranoeth, ar ol ymdrwsio ac ymlanhau ychydig, ar ol yr ystorm, yr oeddent yn fuan wedi ymbarotoi i daith diwrnod arall, ac ar ol gryn lawer o ymdrech a llafur, llwyddasant i gyrhaedd math o gysgodfa a *log-shanty* ag oedd wedi cael ei hadeiladu gan weithwyr oedd wrth y gwaith o glirio tir. Yr oedd hon yn sefyll yn nghylch hanner milldir i'r gogledd o South Trenton. Cawsant eu derbyn yn dra charedig yno, a lle da i orphwys dros y nos. Ar ol taith diwrnod caled, o bum' milldir o ffordd.

Y trydydd dydd, cyrhaeddasant bentref Trenton, bedair milldir yn mhellach i'r gogledd, lle yr oedd ychydig o sefydlwyr, ac yno y cawsant dderbyniad ac amgeledd.

Y pedwerydd dydd, yr hwn oedd Medi 15fed, cyrhaeddasant y lle yr oeddent yn meddwl myned iddo, yr hwn sydd yn nghymydogaeth y *Store Felen*, yn mhlwyf Steuben. Yno yr oedd pump neu chwech o deuluoedd Americanaidd, wedi dyfod y flwyddyn flaenorol. Y rhai hyn a ddangosasant y llettygarwch a'r caredigrwydd mwyaf tuag atynt hyd nes y daethant yn alluog i ddarparu drostynt eu hunain.

Y peth cyntaf mewn golwg yn awr, oedd dewis manau priodol, yr hyn a wnaethant mewn cylch o hanner milldir; yna yr oeddent yn fuan wrth y gwaith o dori y coed i lawr, ac adeiladu eu cabanau cyffion, pa rai oedd oedd yr unig breswylfeydd y pryd hyny. Yr oedd yn angenrhaid iddynt ddefnyddio rhisgl y coed *elm* yn dô ar eu tai, ac hefyd yr oeddent yn ei ddefnyddio yn rhau o'u dodrefn y tu mewn, megys eu byrddau, &c.

Eu hesmwyth-feinciau (*sofas*), yn cael eu gwneuthur ganddynt trwy hollti *basswood-log*, a churo pedwar troed i'r ochr crwn neu y gwaelod. Eu *French bedsteads* a wnaent trwy yru pedwar *post* i'r ddaear, a gosod prenau yn groes ar benau y *postau*, a gorphen y gorchwyl drwy roddi rhisgl y coed *elm* ar waelod y gwely.

Mewn rhai manau, byddent yn dewis lle i adeiladu tŷ, lle y byddai coeden fawr o fedwen neu fasarnen (*maple*), y rhai a dorent i lawr ac a ddefnyddient ran o honi at adeiladu ystlysau y tŷ, a'r rhan arall, sef y boncyff, a ddefnyddient y tu mewn, yn fwrdd (*centre table*); byddai y rhanau eraill yn gyffelyb eu dull.

Yn y flwyddyn gyntaf ar ol eu sefydliad yn eu cartref newydd, nid oedd un felin i falu ŷd yn agosach atynt na Whitestown, yr hon oedd yn nghylch ugain milldir oddiwrthynt, ac nid oedd ond un ceffyl yn cael ei feddiannu yn yr holl blwyf. Yr oedd hwn yn meddiant un o'r Americaniaid, ac yr oedd yn cael ei ddefnyddio fel cludydd cyffredin i gario yr ŷd i'r felin.

Gan nad oedd un ffordd drwy y coed, y rhan fwyaf o'r pell der hwn, oddyeithr llwybr troed, a *marciau*, neu arwyddion wedi eu rhoddi ar y coed yma a thraw, i ateb yn lle mynegfysedd, neu (*guide boards*). Byddai y nos yn aml yn dal y sefydlwyr cyn cyrhaedd adref, a byddai mor dywyll yn y coedydd a'r anialwch, fel y byddent weithiau mewn llawn trafferth i gael eu ffordd allan o'r dyrysni; ond yr oedd yr hen geffyl (*Old Gray*) bob amser yn deilwng o ymddiried, ac mor adnabyddus â'r llwybr, fel y rhoddid yr anrhydedd iddo ef o arwain y teithwyr yn aml, ac os nad ymaflent yn ei gynffon, byddent yn dra gofalus i ddilyn ol traed eu rhagflaenydd, ac felly llwyddent i ddyfod allan o'r coed. Ond yn yr haf canlynol, adeiladwyd melin o fewn pedair milldir i'r sefydliad, a bu diwedd ar drafferth o'r fath hyn.

Wedi teithio y fath bellder, a myned trwy lawer o rwystrau ar eu teithiau, ac wedi cyrhaedd pen eu taith, byddai yr ychydig feddiannau ag oedd ganddynt erbyn hyn bron a threulio ymaith. Mewn canlyniad i hyn, byddai y meibion yn aml yn gorfod gadael eu gwragedd a'u plant i wylio ac i ofalu am y cabanau, tra yr elent hwythau ymaith am dymhor i weithio, lle y gallent ennill rhyw gymaint at gynnal eu teuluoedd. Yn eu habsenoldeb, nid anfynych y byddai y gwragedd a'r plant yn cael eu dychrynu gan fwystfilod gwylltion, y rhai oeddent y pryd hyny yn lluosog ac aml yn y lle. Yr oedd clywed eu nadau yn y nos yn dra dychrynllyd, ac weithiau felly hyd yn nod yn y dydd. Gwelid Mr. *Bruin* yn aml yn ymrodio oddiamgylch, gan geisio yr hyn a allai gael i'w ddyfetha, ac weithiau llwyddai i fyned a mochyn bychan oddiar bwys y tŷ, ac er ei holl nadau, carid ef ymaith gan y bwystfil i'w ffau.

Yn y flwyddyn 1796 y ganwyd y Cymro cyntaf yn swydd Oneida, ac mor belled ag y gallwn wybod, y cyntaf a anwyd yn orllewinol i Efrog Newydd, yr hwn sydd yn awr yn fyw ac iach gyda'i deulu yn y gymydogaeth. Ei wraig ef oedd y plentyn a ddiogelwyd dan wraidd y goeden y noson gyntaf pan ar ei thaith o Utica.

Yn y modd hyn y buont yn eu sefyllfa o unigedd, heb lawer o gysuron bywyd, na moddion gras, hyd y rhan ddiweddaf o'r flwyddyn 1798, neu yn gynnar yn y flwyddyn 1799,

pryd y daeth amrai eraill atynt, y rhai oeddent wedi eu gadael yn New York. Yn mysg y rhai, yr oedd diacon William C. Jones, William Griffith, Robert Griffith, John Parry, &c. Y rhan fwyaf o'r rhai hyn oeddent yn ddynion crefyddol, ac yn fuan wedi iddynt gyrhaedd, sefydlwyd cyfarfod gweddio. Cynnelid ef yn nhŷ William C. Jones.

Er nad oedd un o'r sefydlwyr cyntaf yn broffeswyr crefydd, eto, yr oeddent wedi eu dwyn i fyny dan ddylanwad crefydd Iesu Grist, ac yr oeddent yn teimlo parch ac anwyldeb mawr tuag ati.

Yn y man hyn, coffâf am un amgylchiad ag sydd yn dangos y parch a'r sylw ag oedd y cyfarfodydd gweddi yn ei gael yn yr amser anfanteisiol hyny gan ein cenedl. Dichon y gall rhywun gael rhyw fudd wrth ei ddarllen.

Ar yr amser yr oedd y cyfarfod gweddi cyntaf i gael ei gynnal, yr oedd un o'r mamau mewn gwasanaeth yn byw o fewn wyth neu naw milldir i'r man lle yr oedd y cyfarfod. Yr oedd ei hawydd gymaint am fod yno, yn sefydliad y cyfarfod gweddio *cyntaf*, fel y penderfynodd i gychwyn ar ei thraed, ac felly aeth trwy yr anialwch a'r holl anfanteision, gyda'i baban pedwar mis oed yn ei mynwes.

Y fath gyfnewidiad sydd rhwng yr amser a aeth heibio a'r presenol. Y mae weithiau yn ymddangos yn ormod o orchwyl gan ambell un heddyw fyned dros yr heol ar noson lled dywyll, i fod yn bresenol yn y cyfryw gyfarfodydd.

Ar ol hyn, hwy a barhausant i gynnal eu cyfarfodydd bob Sabboth, hyd y flwyddyn 1801, pryd y symudodd llawer o'r newydd i'r gymydogaeth. Yn niwedd y flwyddyn hon, daeth y Parch. John G. Roberts i'r sefydliad, o Ebensburgh, Pa., a phregethodd y *bregeth Gymraeg gyntaf* i gynnulleidfa lled luosog o Gymry (mewn lle mor newydd). Cynnaliwyd y cyfarfod hwn yn nhŷ anedd John Jones, tad Mr. Griffith Jones, tyddyn yr hwn oedd yn sefyll y pryd hyny ar ran o'r tir a feddiannwyd wedi hyny gan Robert Thomas, yr hwn a fu farw yn ddiweddar; ac ar ol hyn byddent yn cyfarfod bob Sabboth i glywed gair Duw.

Eraill a ddywedant i'r bregeth Gymraeg gyntaf gael ei phregethu gan y Parch. James Harries, gweinidog y Bedyddwyr, yn ysgubor Mr. Joseph Holland Weeks (lle y preswylia Mr. Hugh Evans yn awr), ac mai y testyn oedd Dat. iii. 3. "Yr hwn sydd ganddo agoriad Dafydd, yr hwn sydd yn agoryd ac nid yw neb yn cau, ac yn cau ac nid yw neb yn agoryd." Cyfarfyddent hefyd heblaw hyn bob wythnos i gynnal eu cyfeillachau crefyddol, yn nhŷ Wm. C. Jones, er nad oedd un eglwys reolaidd wedi ei

chorffori hyd y flwyddyn 1804, pryd y ffurfiasant eglwys unol, dan yr enw eglwys Fethodistaidd, a'r Parch. John G. Roberts yn fugail iddynt. Yr oedd rhai o'r aelodau yn flaenorol yn Fethodistiaid Calfinaidd, a'r lleill yn Gynnulleidfawyr. Felly buant gyda'u gilydd, mewn undeb a chariad am rai blynyddoedd, dan fugeiliaeth y dywededig John G. Roberts, a'r Parch. William G. Pierce.

Cyfnewidiwyd enw yr eglwys hon wedi hyny, yn eglwys Annibynol neu Gynnulleidfaol.

Yn hâf y flwyddyn 1804, adeiladasant dŷ addoliad o gyffion (yn y man lle mae y Capel Ceryg yn bresenol). Yr oedd yn lled ddiweddar yn y flwyddyn erbyn iddynt allu cwblhau, dichon mor ddiweddar a'r 1af o Dachwedd, cyn iddo gael ei agor. Gan fod y capel uchod i fod hefyd yn dŷ ysgol, yn gystal a lle i gael addysg ysbrydol, dechreuwyd yr ysgol tua'r 1af o Ragfyr, a chadwyd hi yn y blaen hyd ddydd Nadolig, pan trwy ryw anffawd, llosgwyd y tŷ, a'r oll o'i gynnwysiad.

Ond nid oedd dim yn digaloni yr hen deulu—aethant yn fuan at y gwaith ac adeilasant dŷ *frame* yn ei le, yn y flwyddyn 1805, a bu y tŷ hwn yn cael ei ddefnyddio ganddynt, hyd nes y symudwyd ef oddiar y ffordd i gael lle i'r adeilad ardderchog ag sydd yno yn bresenol, lle y mae y Parch. Robert Everett yn gweinidogaethu.

Erbyn yr amser hwn, yr oedd sefydliad cryf o Gymry yn Utica. Yr oeddent hwythau wedi ffurfio eglwys, yr hon oedd dan ofal gweinidogaethol y Parch. Daniel Morris, yn cael ei gynnorthwyo gan Evan Davies, John Roberts, &c.

Yn yr haf, y flwyddyn 1806, ymwelodd y Parch. Howell R. Powell ag eglwysi Utica a Steuben, ac a'u cynghorodd i ffurfio math o undeb, neu Gymanfa, yr hyn a wnaed.

Y cyfarfod cyntaf a gynnaliwyd yn Utica, oedd yn Medi 1806, ac yn Steuben yr wythnos ganlynol. Y gweinidogion a gymerasant ran yn ngwaith y Gymanfa gyntaf, oeddent Daniel Morris, ac Evan Davies, o Utica, a John G. Roberts, o Steuben, ac un gweinidog Saesonig, nas gallwn gael ei enw yn bresenol. Dyma ddechreuad Cymanfa Oneida, yr hon a gynnelir i fyny gyda brwdfrydedd hyd yr amser presenol.

Y flwyddyn ganlynol, yr oedd y Parch. Howell R. Powell yn bresenol, yn cymeryd rhan bwysig yn ngwasanaeth y Gymanfa, &c.; a pharhaodd Mr. Powell i ymweled â'i genedl agos bob blwyddyn am oddeutu pump ar hugain o flynyddau, yn amser y Gymanfa.

Sefydlwyd eglwys gyntaf y Bedyddwyr, yn Steuben, yn y flwyddyn 1806, ar ddyfodiad y Parch. Richard Jones, o Philadelphia, dan ofal yr hwn y bu yr eglwys uchod am lawer o flynyddoedd. Ond er mai yr amser uchod y ffurfiwyd yr eglwys gyntaf gan y Bedyddwyr, yn Steuben, bu un Morgan Williams, yn pregethu yn achlysurol mewn gwahanol fanau; ond nid oedd yma bregethu sefydlog hyd y flwyddyn a enwyd uchod. Yn fuan wedi hyn, aethant hwythau at y gwaith o adeiladu capel yn y lle y saif y tŷ cyfleus sydd yno yn bresenol.

Yn y lle hwn, gallwn ychwanegu ychydig ffeithiau, wedi eu cymeryd allan o lyfr eglwys Gynnulleidfaol Steuben. Ysgrifenwyd y ffeithiau yn y llyfr uchod, gan Walter G. Griffith, gwr cyfrifol o Gymro (brawd i'r diweddar Timothy Griffith, Ysw., yr hwn ar ol preswylio amrai flynyddau yn Steuben, a ymfudodd i Granville, Ohio). Dywed fod amrai wedi dyfod o Gymru at y rhai oedd eisoes yn Steuben, tua'r flwyddyn 1801; ac mai yr amser hwnw y daeth J. G. Roberts, yr hwn a ddewisasant yn weinidog.

Tua'r flwyddyn 1805, ysgrifenasant gyffes o'u ffydd, a math o gyfammod eglwysig rhyngddynt. Dyma enwau y rhai a'i harwyddasant:—

| | |
|---|---|
| John G. Roberts, | David Jones, |
| Catherine ei wraig, | Elizabeth ei wraig, |
| William C. Jones, | William Griffith, |
| Anne ei wraig, | Jane ei wraig, |
| Richard Jones, | Robert Jones, |
| Susannah ei wraig, | Anne ei wraig, |
| Hugh Jones, | William Roberts, |
| Catherine ei wraig, | Jane ei wraig, |
| Robert Griffiths, | William G. Pierce, |
| Thomas Hughes, | Hugh Thomas, |
| John Thomas, | Robert Evans, |
| John Davies, | Anne Lewis. |

A dyma y rhai a dderbyniwyd yn aelodau yr amser yr arwyddwyd y cyfammod:—

| | |
|---|---|
| Nicodemus Griffith, | Walter G. Griffith, |
| Elinor ei wraig, | Anne, gwraig John Roberts, |
| Elizabeth, gwraig Morris Davies. | |

Dywedir mai un Siencyn Samuel, o Philadelphia, oedd y pregethwr *dyeithr* cyntaf (ar ol John G. Roberts) a ymwelodd â Steuben, ac a bregethodd yn Gymraeg; ond nid ydoedd ef yn y Gymanfa.

Ymwelodd y Parch. George Roberts, â'r ardaloedd hyn, yn amser y Gymanfa, yn y flwyddyn 1822, ac hefyd Thomas Roberts, ei fab, yn y flwyddyn 1824.

Y mae yr arferiad hon yn parhau hyd yn awr, i gael un neu ddau o weinidogion o Daleithau eraill, i ddyfod i ymweled ag Oneida yn amser y Gymanfa flynyddol.

Coffeir hefyd, mai un o'r enw Simms, o yn agos i Bristol, a bregethodd yn Gymraeg gyntaf yn New York. Yr oedd hyn cyn i'r Parch. John Williams ddyfod yno.

Dywedir hefyd, yn y man hyn, i Elizabeth (yn awr gweddw W. P. Jones), ddyfod i'r America yn y flwyddyn 1794, ac yn mhen pedair blynedd, iddi symud i Steuben, lle y mae yn awr, yn iach a chysurus.

Yn y fan yma, ni a gawn roddi ychydig o gofnodion am amgylchiadau pethau yn yr ardal a elwir Smith Hill, yn nghylch deugain mlynedd yn ol. Saif yr ardal hon bedair milldir i'r gogledd-ddwyrain o Utica, yn agos i'r man y mae capel Cymreig Salem yn bresenol.

Daeth y sefydlwr cyntaf i'r ardal hon yn y flwyddyn 1818; hwn ydyw Ellis Roberts, o yn agos i'r Bala, sir Feirionydd, gogledd Cymru. Dilynwyd Mr. Roberts yn fuan i'r ardal hon gan amrai o Gymry. Yn eu mysg, yr oedd David Richards, Rowland Jones, Rowland Davies, David Davies, a John Edwards. Yr oedd y tir coed a'r tir wedi ei glirio y pryd hyny yn gwerthu am yr un bris, sef yn nghylch $8 yr erw. Ystyrid y coed y pryd hyn yn werth y draul o'u clirio oddiar y tir.

Yn yr amseroedd hyn, pan nad oedd un capel Cymreig yn agosach nag Utica. Byddai y brodyr a enwyd uchod yn arfer a chyfarfod â'u gilydd ar amserau, i gynnal cyfarfodydd crefyddol. Ar un nos Sabboth, pan yr oedd cyfarfod gweddio yn cael ei gynnal yn nhŷ un o'r cymydogion (yr hwn oedd wedi clirio y coed oddiar ddarn bychan o dir oddiamgylch ei dŷ *log*. Cafodd yr ychydig frodyr a chwiorydd oedd yn y cyfarfod eu dychrynu yn fawr, gan swn ergyd dryll, yn agos i'r tŷ. Wedi iddynt fyned allan, gwelent, er eu mawr syndod, fod un o'r Americaniaid wedi saethu arthes fawr, ac yr oedd y pryd hyny wrth y gorchwyl o ladd un o'i chywion, yr hwn oedd wedi gwneyd ymdrech i ffoi rhag ei erlidiwr, a dringo i goeden oedd yn gyfagos.

Yr oedd yr *Yankee* anturiaethus wedi gweled y dydd o'r blaen ol traed *Mrs. Bruin* a'i chywion, yn dyfod i ladrata *corn* y Cymro, a'r noson hono wedi myned gyda'i ddryll, ac wedi ymguddio yn y swp *corn*, i wylio dyfodiad y lladron; ac fel hyn llwyddodd yn ei anturiaeth yn llawn cystal a'i ddysgwyliad. Cafodd ddigon o gig arth i'w fwyta iddo ei hun a'i deulu am amser maith, a chafodd y Cymro o hyny allan well gobaith am fara *corn*.

Y mae y cyfnewidiad yn fawr yn yr ardal hon yn bresenol. Y mae rhai o'r sefydlwyr cyntaf eto yn fyw, ac wedi dyfod yn gyfoethog o bethau y byd. Mae y bwystfilod gwylltion wedi eu hymlid ymaith er ys llawer dydd. Y mae gan yr hen Gymry dai a thiroedd dymunol. Pris y tir yn gyffredin yn yr ardal hon yw o $40 i $50 yr erw.

## PENNOD IV.

### CYNNYDD GRADDOL Y CYMRY YN UTICA A'I HAMGYLCHOEDD.

Y MAE sefyllfa Utica a'i hamgylchoedd, yn bresenol, yn dra gwahanol i'r hyn oedd hanner can' mlynedd yn ol. Pe byddai yr hen bobl a breswylient yr ardaloedd hyn y pryd hyny, yn dyfod i ymweled â'r cylchoedd hyn yn awr, prin yr ydwyf yn meddwl y gwnaent adnabod y lle. Mae y cyfnewidiadau mor fawr—byddai yn anhawdd ganddynt gredu iddynt weled y lle erioed o'r blaen. Nid oedd y pryd hyny ond ychydig o Gymry yn Utica, ac ychydig mewn cydmariaeth i'r lluosogrwydd sydd yn bresenol, yn Steuben a Remsen, ac nid ydwyf yn gwybod fod un sefydliad arall o Gymry yn un man yn swydd Oneida; ond yn bresenol, y mae sefydliadau o Gymry wedi ymdaenu bron i bob cyfeiriad yn y swydd hon.

Y mae yn Waterville, pymtheng milldir i'r de' o Utica, sefydliad cryf o Gymry, ac y mae yno eglwys gan y Cynnulleidfawyr; y Parch. Edward Davies, yn weinidog iddynt. Mae sefydliadau cryfion o Gymry ar Paris Hill, Bridgewater, a Plainfield. Mae y Parch. Humphrey Humphreys, yn gweinidogaethu gyda y Wesleaid, ar Paris Hill; a'r Parch. John Adams, gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, yn Bridgewater.

Mae hefyd sefydliad lluosog o Gymry yn mhlwyf Nelson, swydd Madison, yn nghylch deng milldir ar hugain i'r de' o Utica, ac y mae y Parch. John Lloyd yno gyda y Cynnulleidfawyr.

Y mae hefyd yn Frankfort Hill sefydliad o Gymry, ac y mae ganddynt gapel da wedi ei adeiladu yn ddiweddar, gan y Methodistiaid Calfinaidd.

Ond yr ochr arall i Utica, sef yr ochr ogleddol, y mae y sefydliadau Cymreig mwyaf lluosog. Mae yn mhlwyfydd Marcy a Deerfield, lawer o Gymry yn byw yn gysurus, er ys llawer o flynyddoedd. Mae yn y plwyfydd hyn, bedwar neu bump o gapelau gan y gwahanol enwadau. Gweinydda y Parch. Wm. D. Williams, yn Salem, Marcy, gyda y Cynnulleidfawyr, ac mewn manau

eraill gyda y T. C., gweinydda y Parch'n Wm. Rowlands, Holland Patent, a Wm. Hughes, Utica, ac eraill yn eu cylch. Mae Mr. John Hughes, a'r Parch. Hugh Hughes, yn pregethu gyda'r Bedyddwyr. Hefyd mae y Parch. John R. Griffiths yn gweinidogaethu gyda y Cynnulleidfawyr, yn Bethania, Marcy.

Mae yn Holland Patent, ddau gapel gan y Cymry, a chynnulleidfaoedd lled luosog, gan y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Cynnulliedfawyr. Mae yr Henadur Wm. Rowlands, yn byw yn y lle, ac yn gweini gyda y T. C.

Mae eglwys o Gymry, a chapel newydd, da, gan y Cynnulleidfawyr, Cymreig yn pentref Trenton.

Y mae gan y Bedyddwyr eglwys, a chapel newydd, a chynnulleidfa luosog, yn South Trenton, lle gweinydda y Parch. J. W. Jones. Mae gan y Methodistiaid Esgobawl, gapel, a chynnulleidfa dda, yn agos i South Trenton, ac mae y Parch. John Williams, yn gweinyddu gyda hwy yno.

Y mae dau gapel, a dwy gynnulleidfa, o Gymry yn Floyd, un gan y Cynnulleidfawyr, a'r llall gan y Methodistiaid Calfinaidd, Mae y Parch. T. T. Evans, yn byw yn y lle, ac yn gweinyddu yn ei gylch gyda y T. C. Nid oes weinidog yn bresenol gyda y Cynnulleidfawyr.

Mae yn Oriskany, hefyd, ychydig o Gymry, ac y mae yno gapel, a phregethu rheolaidd, gan y Methodistiaid Calfinaidd.

Mae yn Rome, ddwy gynnulleidfa, un gan y Methodistiaid Calfinaidd, a'r llall gan y Cynnulleidfawyr. Gweinydda y Parch. T. Williams, gyda y T. C.

Hefyd, y mae yn York Mills, eglwys, gweinidog, a chynnulleidfa luosog o Gymry. Y gweinidog, ydyw y Parch. Edward W. Jones. Eglwys o Gynnulleidfawyr sydd yno.

Nid ydwyf yn alluog i roddi cyfrif manwl am gynnydd ein cenedl, yn Steuben a Remsen; ond os cydmerir y pethau canlynol â phethau yno hanner cant neu driugain a flynyddoedd yn ol, gwelir fod y gwahaniaeth yn fawr iawn. Dywedir fod yn y ddau le uchod yn bresenol saith o Gymry am bob un ag syddyno o genedloedd eraill.

Yr eglwysi mwyaf lluosog gyda y Methodistiaid Calfinaidd yn yr ardaloedd hyn, ydynt y rhai canlynol: Penygraig, Penycaerau, Remsen, Nant, a'r French Road. Y gweinidogion a lafuriant yn benaf gyda hwy, ydynt y Parch'n Edward Rees, John D. Jones, Ebenezer Salisbury, a Richard Jones.

Yr eglwysi mwyaf lluosog gyda yr Annibynwyr neu y Cynnulleidfawyr, ydynt Steuben, Penymynydd, Remsen, a Bethel. Y

gweinidogion sydd yn gweinidogaethu yma ydynt y Parch'n Robert Everett, Morris Roberts, Robert Evans, a Thomas Jones. Mae y Parch. Hugh R. Williams, yn gweini i eglwys o Gynnulleidfawyr yn Ninety-six.

Y mae cynnulleidfa o Annibynwyr yn Prospect, a chapel da, ond heb weinidog.

Mae gan y Bedyddwyr eglwysi a chynnulleidfaoedd lluosog yn yr ardaloedd hyn, sef Steuben, Remsen, Bordwell, a Prospect Eu gweinidogion hwy, ydynt y Parch'n John W. James, Edward Humphreys, Owen F. Parry, David J. Williams.

Mae gan y Methodistiaid Esgobawl, hefyd, gynnulleidfaoedd da o Gymry yn yr ardaloedd hyn—un yn Sixty, ac un arall yn Ninety-six. Mae y Parch. John Williams yn gweinidogaethu iddynt.

Mae amryw gynnulleidfaoedd, ac eglwysi Cymreig, yn mhellach i'r gogledd o Remsen, o ugain i ddeg ar hugain o filldiroedd, ac mae y Parch. Richard Isaac yn gweinidogaethu gyda y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Parch'n David E. Pritchard, a William Roberts gyda y Cynnulleidfawyr. Gellir gweled fod y cynnydd wedi bod yn fawr yn yr ardaloedd hyn, er nad ydyw wedi bod mor gyflym ag mewn rhai manau am ychydig dymhor.

---

## PENNOD V.

### Y CYFNEWIDIADAU A'R CYNNYDD SYDDWEDI BOD AR Y CYMRY YN UTICA, YN YSTOD Y TRIUGAIN MLYNEDD DIWEDDAF.

Sylwyd eisoes, mai tua'r amser a nodwyd uchod, y mae yn debyg y dechreuodd y Cymry sefydlu yn y lle. Pa fodd bynag, yr ydym yn gwybod nad oedd yma ond ychydig o rifedi y pryd hyny. Nid oedd y pryd hyn un math o dŷ addoliad, nac un gymdeithas eglwysig yn y lle gan y Saeson na'r Cymry!

Cawn yn y fan yma, roddi ychydig o gofnodau am ddechreuad yr eglwysi Cymreig yn Utica. Yn ol yr hanes, ymddengys mai i'r Bedyddwyr Cymreig y perthyn yr anrhydedd o ymgyfammodi yn eglwys reolaidd gyntaf oll, yn Utica; er fod y *Presbyterians* a'r *Episcopalians* yn cynnal cyfarfodydd crefyddol yn flaenorol i ffurfiad un eglwys. Cawn yr hanes canlynol yn argraffedig yn Saesonaeg:

"Ar y 12fed dydd o Fedi, 1801, cyfarfyddodd dau ar hugain o bersonau yn nhŷ John Williams, yn agos i'r *Asylum*, ac a ffurfiasant yr eglwys Fedyddiedig gyntaf yn Utica. Yn eu mysg ar y

pryd, yr oedd yr henaduriaid James Harris, a John Stevens, y rhai a weithredent fel eu gweinidogion. Yn y flwyddyn 1806, etholwyd Abraham Williams, James Morgan, a William Francis, yr Ymddiriedolwyr cyntaf yn eu plith, ac o fewn y flwyddyn hon adeiladasant dŷ addoliad. Yr oedd y tŷ hwn yn sefyll ar heol Hotel, yn y fan y mae y gamlas yn bresenol. Yn flaenorol i wneuthuriad y gamlas, symudwyd y tŷ ar y Broadway, y fan y mae eu tŷ addoliad presenol." Cwyna yr awdwr fod y cofnodion i raddau yn ddiffygiol; ond mor belled ag y gellir eu cael—rhoddwn enwau y gweinidogion a fu yn gweinyddu yma ar wahanol amserau: yr henaduriaid Abraham Williams, John Stevens, David Griffith, Joseph Richards, David Michael, William H. Thomas, William Phillips, David Phillips, Hugh Hughes, David Jenkins, Morris J. Williâms, a John Edred Jones, y gweinidog sydd yn llafurio gyda yr eglwys hon yn bresenol. Mae yma gynnulleidfa luosog a pharchus.

Yn nesaf, yr ydym yn rhoddi y cofnodau sydd genym am yr eglwys Gynnulleidfaol:

Cawn hanes fod deg o'r Cynnulleidfawyr oedd yn byw yn Utica, yn y flwyddyn 1801, wedi ymuno yn aelodau eglwysig, gyda y *Presbyterians*, yn Whitesboro'; ond ymddengys na buont yno ond am ychydig amser. Gwelwn mewn hanes wedi ei ddyddio Ionawr 1af, 1802, fod y personau canlynol wedi ysgrifenu eu henwau wrth eu cyfammod eglwysig yn Utica:

| | |
|---|---|
| Nathaniel Davies, | Watkin Powell, |
| David Thomas, | William Thomas, |
| Martha Thomas, | Evan Powell, |
| John Jones, | Thomas Phillips, |
| James Phillips, | Jemima Morris, |
| John Nicholas, | Rebeccah Powell. |
| Sarah Richards, | Jane Davies. |

Ymddengys fod yr eglwys fechan hon wedi bod yn cynnal ei chyfarfodydd crefyddol mewn tai annedd, hyd y flwyddyn 1804, oblegid yn y flwyddyn hono yr adeiladasant eu tŷ addoliad. Sylwer yma, fod ein cenedl wedi blaenori gyda y gwaith goreu. Dywedir fod y Bedyddwyr wedi ffurfio yr eglwys gyntaf yn y lle. Gellir dyweyd hefyd fod y Cynnulleidfawyr wedi cwblhau y tŷ addoliad cyntaf a fu yn Utica. Mae adeilad presenol yn sefyll ar yr un lle a'r tŷ cyntaf, ar gongl heolydd Washington a Whitesboro', ond ychwanegwyd at ei faintioli wedi hyny. Adeiladwyd y tŷ presenol yn y flwyddyn 1834. Y mae yn awr yn adeilad hardd o briddfeini, ac er ei fod yn helaeth, y mae yn cael ei lenwi yn dda ar y Sabbothau gan gynnulleidfa brydferth, y rhai a deilyngant yr anrhydedd a berthyn i'r genedl.

Y gweinidog cyntaf a fu gyda yr eglwys hon, yn Utica, oedd y Parch. Daniel Morris. Symudodd Mr. Morris i Utica yn nechreu mis Tachwedd, 1802, gyda llythyr cymeradwyaeth a gollyngdod rheolaidd oddiwrth eglwys Gymreig Philadelphia. Bu yma am amryw flynyddau.

Ar ei ol ef bu y Parch. William G. Pierce yn dyfod yma yn fisol, am amser i weinyddu i'r eglwys; a bu y brodyr Rowland Griffith, a John Roberts, am lawer o amser yn gynnorthwyol iddo ef, yn pregethu yn y lle.

Bu y Parch. Howell R. Powell yn gweinyddu i'r eglwys hon am amser byr, ac ar ei ol ef bu y Parch. Benjamin Powell yn weinidog yma tua thair blynedd.

Ar ol ei ymadawiad ef, rhoddodd yr eglwys alwad rheolaidd i'r Parch. Robert Everett, yr hwn y pryd hyny oedd yn weinidog parchus gydag eglwys o'r un enwad yn Dinbych, Gogledd Cymru, yn 1823. Cydsyniodd Mr. Everett â'r cais, a bu yn Utica yn llafurus a defnyddiol am tua deng mlynedd o amser. Wedi iddo ef ddewis ymadael, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. James Griffiths, dyn ieuainc wedi dyfod o sir Gaerfyrddin, D. C. Bu Mr. Griffiths yma am un ar bymtheg o flynyddau, yn ddefnyddiol i'r eglwys a'r ardaloedd.

Pan ymadawodd y Parch. J. Griffiths, daeth y Parch. Evan Griffiths i'r lle, a bu yntau hefyd yn ymdrechgar a llwyddiannus am chwe' blynedd.

Bu yr eglwys wedi ei ymadawiad ef am ddwy flynedd heb weinidog sefydlog. Yn yr amser hwn, pregethid yn Sabbothol gan y gweinidogion cymydogaethol, a chan Ll. D. Howell, aelod yn yr eglwys, a phregethwr cynnorthwyol.

Yn mis Mai, 1857, mewn cydsyniad a galwad unfrydol yr eglwys, cyrhaeddodd y Parch. David Price yma, o Ddinbych, G. C., ac ar y 25ain o'r un mis, dechreuodd ar ei lafur gweinidogaethol. Efe ydyw y gweinidog sydd yn Utica yn awr, ac y mae ei lafur yn dra derbyniol gan yr eglwys a'r gwrandawyr yn gyffredinol.

Eglwys y Methodistiaid, neu y Trefnyddion Calfinaidd. Ei dechreuad a'i chynnydd oedd yn debyg i'r hyn a ganlyn:

Yn ol yr ychydig hanes ag sydd genym i'w roddi, yr oedd rhai o'r brodyr hyny mewn undeb â'r eglwys Gynnulleidfaol, hyd y flwyddyn 1830. Ond yn mis Chwefror, y flwyddyn hono, ymunodd ychydig frodyr a chwiorydd gyda'u gilydd yn gymdeithas eglwysig, i'w hadnabod wrth yr enw "Trefnyddion Calfinaidd." Ac ar yr 20fed dydd o'r mis crybwylledig, mewn Cyfarfod Chwarterol a gynnaliwyd gan y T. C., yn mhlwyf Remsen, y derbyniwyd hwy

i'r undeb gyda yr enwad uchod. Eu swyddogion cyntaf oeddent Evan Roberts, a Robert J. Jones.

Y pregethwyr cyntaf a fu yn gweini i'r gangen hon, oeddent y Parch'n Benjamin Davies, William T. Williams, a David Stevens. Yn mysg y rhai a fu yn gweini iddynt wedi hyn, gallwn enwi y Parch'n canlynol:

Morris Davies, Morris Roberts, William Rowlands, Enoch Samuel, David Lewis, a Thomas Foulkes. Y gweinidog presenol ydyw y Parch William Hughes.

Adeiladwyd y capel cyntaf gan y gangen hon yn Utica, yn y flwyddyn 1831, ar heol Seneca. Y mae yma gapel rhagorol, wedi ei adeiladu yn yr un lle wedi h'yny; ac y mae ganddynt gynnulleidfa fawr, ac y mae y Parch. Wm. Hughes yn bregethwr synwyrol, cymeradwy a defnyddiol iawn.

Eglwys y Trefnyddion Esgobawl a sefydlodd Genadaeth Gymreig yn ninas Utica, Gorphenaf, 1849. Mewn goruwchystafell y cyfarfyddent i addoli ar y cyntaf; ond yn Mai, 1850, prynasant ddarn o dir, ar yr hwn yr oedd ysgoldy, ar heol Wasington, a gwnaed yno gapel bychan cyfleus.

Yn y flwyddyn 1858, adgyweiriwyd y capel, a chostiodd y tir a'r capel $2,500, yr hyn sydd yn awr agos oll wedi ei dalu. Y Parch'n Rees Davies, Thomas Hughes, a John Jones, a fu yn gwasanaethu yma fel gweinidogion hyd ddechreu y flwyddyn 1854, pryd y cymerwyd gofal y genadaeth gan y Parch. R. L. Herbert, yr hwn sydd yn weinidog yno hyd yn awr.

Y mae rhifedi yr eglwys hon yn nghylch hanner cant, ac y mae y gynnulleidfa yn gyffredin oddeutu cant. Y mae tua hanner cant yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol.

Mae yn y sefydliad hwn (sef Utica a'i hamgylchoedd) weinidogion ag sydd mor alluog o ran dysg a dawn ag a ellir gael mewn un sefydliad yn America, ac nid oes ond ychydig, os oes neb, yn fwy talentog na'r rhai hyn yn Nghymru. Dylai trigolion Cymreig Oneida fawrhau eu braint am eu bod yn cael gwasanaeth gweinidogion mor deilwng ac mor lafurus.

Y mae hefyd amrai bregethwyr cynnorthwyol. Gyda y T. C., y brodyr Thomas Jenkins a D. C. Evans. Gyda yr Annibynwyr mae y brodyr Ll. D. Howell, Thomas Owen, William Vincent a Robert Evans.

Gyda y Wesleyaid, mae y Parch. Rees Davies, a D. T. Davies. Y mae eraill yn y cylchoedd hyn nad allaf yn bresenol eu cofnodi.

Yn flaenorol i'r flwyddyn 1840, nid oedd un argraff-wasg Gymreig yn Oneida, er mae yn wir fod rhai llyfrau Cymreig wedi

eu hargraffu flynyddau cyn hyny. Ond yn awr, y mae genym yn swydd Oneida, dair swyddfa Gymreig ar eu llawn waith yn argraffu llyfrau Cymreig. Yn Utica, y mae un gan D. C. Davies, argraffydd y "Cyfaill." Un gan y Parch. Robert Everett, cyhoeddydd y "Cenhadwr Americanaidd," yn Steuben; ac un arall yn Rome, gan R. R. Meredith, argraffydd a chyhoeddydd yr "Arweinydd."

Y mae yn debyg mai y llyfr Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd yn Utica, oedd pigion o Emynau, &c., perthynol i addoliad eglwysig a theuluaidd. Cyhoeddwyd hwn yn mis Mai, 1808. Tebygol fod y cyhoeddiad yn benaf dan olygiaeth y Parch. Daniel Morris. Arferid yr Hymnau hyn gan y Cynnulleidfawyr a'r Bedyddwyr y pryd hyny. Y mae un o'r llyfrau hyn yn meddiant Mr. L. L. Lewis, Utica, yn bresenol. Argraffwyd y llyfr hwn gan Ira Merrell.

Tua'r flwyddyn 1830, argraffwyd llyfr Emynau arall, o'r enw "Caniadau Seion," gan William Williams, Utica, at wasanaeth y Cymry yn Utica a Steuben.

Wedi hyn, argraffwyd yr "Hyfforddwr," yn nghyda "Chatecism ar y Deg Gorchymyn," gan yr enwog Charles o'r Bala, gan R. Northway, argraffydd.

Yn 1839, ail argraffwyd y llyfr Emynau a argraffwyd yn 1830, gan R. W. Roberts.

Yn 1841, agorodd Evan E. Roberts, swyddfa argraffyddol Gymreig yn y ddinas hon, yn benaf i'r dyben o argraffu y "Cyfaill o'r Hen Wlad," yr hwn a argraffodd am dair blynedd. Wedi ymadawiad y "Cyfaill," argraffwyd y "Seren Orllewinol" (yn awr yn Pottsville), yn ei swyddfa am dymhor.

Rhwng y blynyddoedd 1841 ac 1845, argraffwyd a chyhoeddwyd gan E. E. Roberts, y llyfrau canlynol: "Geiriadur Ysgrythyrol" Charles, o'r Bala, "Cyffes Ffydd y T. C." yr "Hyfforddwr," "Hanes y T. C. yn America," "Caniadau Seion," llyfr tônau, gan R. Mills, "Llyfr Emynau," casgliad Mr. Morris Davies, "Geiriadur Saesonaeg a Chymraeg," gan W. Richards, "Esboniad ar y Datguddiad," gan D. Morgans, llyfr arall o'r enw "Cyfarwyddyd Profedig," gan J. Thomas, "Y Cristion mewn cyflawn Arfogaeth," gan Wm. Gurnal, "Y Meddyg Teuluaidd," gan Dr. H. Ll. William's "Llais o'r Llwyn," gan John Edwards (Eos glan Twrch), "Y Durtur" (Emynau Dirwestol), "Traethawd ar y Sabboth," gan J. Elias, "Armagedon," "Eliasia," gan Brutus, yn nghydag amrai o lyfrau eraill gan wahanol gyhoeddwyr at wasanaeth yr Ysgol Sabbothol.

Dechreuodd E. E. Roberts argraffu Esboniad James Hughes ar y Testament Newydd; ond yn y cyfamser, gwerthodd ei swyddfa i Ellis H. Roberts, a gorphenwyd yr Esboniad, yn nghydag argraffu Llyfr Emynau, casgliad y Parch. Wm. Rowlands yn y swyddfa hono.

Heblaw y rhai hyn, argraffwyd yn y swyddfa hon, gan R. W. Roberts lawer o lyfrau Cymreig, nas gallwn eu coffa ar hyn o bryd. Y mae R. W. Roberts yn un o brif argraffwyr y ddinas er ys llawer blwyddyn.

Argraffwyd llawer o lyfrau Cymreig gan R. R. Meredith, yn Rome, ac yn eu mysg y rhai canlynol:

"Y Cyfaill o'r Hen Wlad," am dair blynedd, "Yr Hyfforddwr," "Oriau olaf Iesu Grist," "Drych Prophwydoliaeth," "Holwyddoreg," "Cynnyrchion Trydedd Eisteddfod Utica," "Cyfansoddiadau Cerddorol Eisteddfod Wisconsin," ac amrai anthemau eraill, "Traethawd ar Gerddoriaeth Gysegredig," gan H. J. Hughes, buddugol yn Eisteddfod Utica, "Marwnad y Parch. John Jones, Talysarn," "Rhodd Tad i'w Blant," "Y Pregethwr a'r Gwrandawr," "Y Drysorfa Gerddorol," &c.; ac y mae ganddo yn awr yn y wasg ddau lyfr, a byddant allan yn fuan—"Taith y Parch. J. Mills i Palestina," a "Chorff Duwinyddiaeth," gan y Parch. Joseph E. Davies, Newark, Ohio. Cyhoeddwyd hefyd "Awdl ar Holl Bresenoldeb Duw," gan Eos Glan Twrch, buddugol yn Eisteddfod Utica. Argraffwyd yma hefyd "Holwyddoreg" o waith y Parch. William Rees, Liverpool, cyhoeddedig yn America, gan y Parch. Robert Evans, Remsen.

Argraffwyd y llyfrau canlynol, yn swyddfa y "Cenhadwr Americanaidd:"

"Caniadau y Cysegr," "Cofiant y Parch. William Williams, o'r Wern," "Cofiant y Parch. Daniel Griffiths, Castellnedd," "Yr Eglwys yn y Tŷ, neu Grefydd Deuluaidd," "Caban f' Ewythr Twm, neu Fywyd yn mysg yr Iselradd," "Yr Hawl yn Glir," "Arweinydd i ddysgu Darllen Cymraeg, "Yr Addysgydd, neu y Catecism Cyntaf," "Yr Egwyddorydd Efengylaidd," &c.

Y mae D. C. Davies, argraffydd y "Cyfaill o'r Hen Wlad," wedi argraffu amrai lyfrau buddiol; efe a argraffodd "Y Mynegair Ysgrythyrol," yr hwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Mr. Thomas Jenkins, a Mr. David C. Evans. Y mae hwn yn llyfr tra gwerthfawr i'r Cymry, a dylent ei bwrcasu, a'i ddefnyddio.

Gellir gweled oddiwrth y llyfrau, a'r nifer cyfrolau Cymreig a gyhoeddir yn y cylchoedd hyn, nad ydyw ein cenedl yn ddi-archwaeth na di-awydd am ddarllen a choethi y meddwl mewn

gwybodaeth a llenoriaeth Gymreig. Y mae yn y swydd hon luaws o lenorion ag sydd yn wir deilwng o'r enw a'r anrhydedd, os ydyw un ag sydd yn cael y fraint o breswylio yn eich mysg yn gymhwys i roddi barn ar y mater. Nid rhaid eu henwi, ond gellir eu hadnabod wrth eu gweithiau cyhoeddedig.

Y mae amrai feirdd yn y cylchoedd hyn ag ydynt yn anrhydedd i'w cenedl. Yn mysg y rhai mwyaf enwog, gallwn goffâu y rhai canlynol: John Edwards (Eos Glan Twrch), y Parch. David Price (Dewi Dinorwig), Henry Lewis (Ap Llewelyn), John J. Davies (Ioan Idris), Edward R. Jones (Ap Cinmerchyn), Richard M. Williams (Ap Morydd), Robert Evans Ieu. (Meirionwyson), Lewis Meredith (Lewys Glyn Dyfi), y Parch. R. L. Herbert, Roland ab Owen, Edward Jones, a Joseph Griffiths (Bardd Egryn).

Yn mysg yr amrai gymdeithasau a sefydlwyd gan y Cymry yn Utica a'i hamgylchoedd, yr oedd y rhai canlynol:

Yn y flwyddyn 1814, sefydlwyd y gymdeithas a elwid "*Ancient Britons' Benefit Society.*" Ei swyddogion cyntaf oeddent John Adams, Llywydd; William Francis, Is-lywydd; Daniel James, Ysgrifenydd ; John Stevens a Thomas George, Goruchwylwyr; Titus Evans, John Reed, Henry Reed, John Rees, Thomas Thomas, Peter Lloyd, William Davies, yn Bwyllgor. Bu y personau canlynol wedi hyny yn Llywyddion i'r Gymdeithas hon: Wm. Francis, Thomas James, David Reed, John Adams, Thomas James, Jr. Thomas Sidebottom, D. E. Morris, Ll. D. Howell, Marvin M. Jones, Benjamin Owens, Henry Roberts, Peter Davies, Thomas B. Howell, Phillip Thomas, a Henry Roberts.

Mae y Gymdeithas hon yn awr wedi ymddattod trwy gydsyniad ei haelodau.

Tua y flwyddyn 1817, y sefydlwyd Cymdeithas Feiblaidd, yn Utica a Steuben. Ei swyddogion cyntaf oeddent : Llywydd, John Stevens; Is-lywyddion, John Roberts, Utica, a John G. Roberts, Steuben ; Ysgrifenyddion, Evan Davies, Utica, a John R. Thomas, Steuben; Trysorydd, Edward Baldwin, Utica. Dyma oedd dechreuad y Cymdeithasau Beiblaidd sydd yn awr yn lluosog yn y cylchoedd hyn, ac mor llafurus a diflino yn eu cyfraniadau yn yr achos teilwng hwn.

Yr ydym yn deall hefyd, fod y Cymry wedi dechreu casglu at y Gymdeithas Genadol yn y sefydliad hwn mor foreu a'r flwyddyn 1814, ac yn parhau yn ffyddlon.

Bu y Parch. Robert Everett, ac eraill, yn dra llafurus, gan gyhoeddi traethodau, a llafurio yn ddiflino yn erbyn meddwdod ac o blaid sobrwydd am flynyddoedd lawer; ac yn ol yr hanes sydd

genym, bu ef yn brif offeryn i sefydlu Cymdeithas Ddirwestol yn Utica, Gorphenaf 31, 1837. Dywed cyfaill a ysgrifenai ataf am y Gymdeithas, gan gyfeirio at Mr. Everett, nad oedd neb ond efe ac E. P. Thomas, Pottsville, a'r cyfaill parchus ei hunan, yn aelodau o'r Gymdeithas Ddirwestol ar ddechreu y cyfarfod a gynnaliwyd yn Utica, yr amser uchod; ond cyn diwedd y cyfarfod, yr oedd dros gant o'n cenedl wedi cymeryd yr ardystiad i fod yn llwyrymattalwyr oddiwrth bob math o wlybyroedd meddwol fel diod, &c. Dywed yr hanes mai y boneddigion canlynol oedd swyddogion cyntaf y Gymdeithas Lwyrymattaliol:

Y Parch. Robert Everett, oedd y Llywydd; Evan Ellis, yn Islywydd; Evan E. Roberts, yn Drysorydd; Henry Roberts, yn Ysgrifenydd; David E. Morris, Richard T. Jones, Evan Roberts, Michael Roberts, a Richard Hughes yn Drefnwyr. Trwy yr ymdrech canmoladwy a fu gyda y Gymdeithas hon, effeithiwyd i gael cyfnewidiad mawr ar yr ardaloedd hyn. Gwelwyd amser pan feddyliai y bobl nad oedd modd gweithio yn llwyddiannus gydag un gorchwyl heb y ddiod feddwol. Ni fedrent yma, gynt, na phriodi na chladdu, na phrynu na gwerthu, heb yr hen ddioden. Yr oedd yn rhaid cael y gostrel yn llawn o *whiskey*, a'i ddefnyddio agos at bob peth—diod feddwol i gadw yn gynnes y gauaf; a diod o'r un natur i'w hoeri yn yr haf; ni allent gadw yn effro y dydd heb y ddiod, ac yr oedd yn rhaid ei chael i'w helpu i gysgu y nos. Ond, y mae amser gwell wedi gwawrio yn mysg y genedl; eithr y mae tir lawer eto heb ei feddiannu, awn rhagom.

Yn y flwyddyn 1849, Chwefror 22ain, ffurfiwyd Cymdeithas Elusengar y Cymry yn Utica a'i chylchoedd, i gynnorthwyo Cymry tlodion yn eu hymfudiaeth o'r Hen Wlad i'r America, yn nghyda'u cynnorthwyo ar ol eu glaniad yn y wlad hon. Swyddogion cyntaf y Gymdeithas hon oedd y rhai canlynol:

Llywydd, David E. Morris; Is-lywydd, David Thomas; Trysorydd, Henry Roberts; Ysgrifenwyr, Evan E. Roberts, a John E. Jones; Trefnwyr, Thomas Jones, William Jones, John Griffiths, John R. Jones dilledydd, Evan J. Jones, Evan Roberts, Llewelyn D. Howell. Bydd Trysorfa sefydlog yn perthyn i'r Gymdeithas hon, yn cynnwys o leiaf $1,000, yr hyn yw y swm haelionus a gyfrenir fel anrheg i'r Gymdeithas allan o feddiannau y ddiweddar Elinor Jones (*Old Ellen*), o Utica, gan ei hymddiriedolwr David E. Morris, fel Trysorfa barhaol (*permanent fund*). Y llôg i gael ei ddefnyddio at ddybenion y Gymdeithas. Mae y Gymdeithas hon yn gweithio yn dda, teilynga gefnogaeth.

# PENNOD VI.

## CYMERIAD CYHOEDDUS Y CYMRY FEL CENEDL YN Y WLAD HON.

NID ydyw yn ormod o ganmoliaeth i ddyweyd fod y Cymry mor uchel o ran eu cymeriad mewn moesau da, a gwladgarwch, ag un genedl arall o'r holl genedloedd a ymfudasant i'r Unol Daleithau. Y mae genym ddigon o dystiolaethau i brofi yr haeriad hwn, ac er calondid i'r Cymry, yr ydym yn cofnodi y rhai canlynol:

Cyhoeddwyd yn y "*Boston Transcript*" yn ddiweddar, y dystiolaeth ganlynol, yr hon hefyd a argraffwyd yn yr "*Utica Morning Herald*," Gor. 28, 1859. "Y Cymry.—Nid ydym wedi clywed yn ddiweddar am genedl y Cymry, er fod llawer o deuluoedd yn Lloegr Newydd, yn ddisgynyddion o hynafiaid Cymreig, a llawer o wroniaid Americanaidd yn Gymry o darddiad. Nid llai na *saith* o Lywyddion yn yr Unol Daleithau a ddewiswyd o waedoliaeth y Cymry. Llaw-nododd dau ar bymtheg o Gymry y Cyhoeddiad o Annibyniaeth (*Declaration of Independence*), ac yr oedd hefyd bedwar ar ddeg o Gadfridogion yn y Rhyfel Chwyldroadol a gwaed Cymreig yn eu gwythïenau."

Gallem nodi hefyd ran o araeth y Parch. J. Potter, a draddodwyd yn Philadelphia, Mawrth 1, 1856, yr hon sydd yn cadarnhau y dystiolaeth uchod:

"Yr ydym yn ddyledus i un o genedl y Cymry, ïe, i un a ymffrostiai yn ei waedoliaeth Cymreig; yr hwn a anfarwolwyd fel offeryn yn Nghyhoeddiad ein Hannibyniaeth, pa un sydd yn cyhoeddi egwyddorion rhyddid i ddynion gorthrymedig yn mhob parth o'r byd, gan ddywedyd wrthynt am iawnderau gwladol a chrefyddol, pob un yn gydradd a'u gilydd. Offeryn yr edrychir i fyny ato fel seren o obaith i holl genedloedd y ddaear i'w harwain i anfarwol deml rhyddid."

Mae y Cymry bron yn ddieithriad, yn Utica a'r cylchoedd, yn bleidwyr gwresog dros ryddid y caethion, a phleidleisiant yn hyf a diofn dros y rhai a arddelant eu hegwyddorion. Mae y Cymry wedi diwygio yn fawr yn y peth hyn. Bu amrai o honynt am amser yn gyndyn ac yn aros gyda phleidwyr caethiwed, ac eraill yn mysg y Meroziaid, heb ddyfod i'r maes i bleidio iawnderau; ond cafodd llawer er ys amser bellach eu goleuo, a'u hennill i farnu ac ymddwyn yn wahanol. Daeth hyn oddiamgylch trwy ymdrech a llafur diflino y dyngarwr teilwng y Parch. Robert Everett, ac er-

aill, y rhai a ddyoddefasant erledigaethau gan eu gwrthwynebwyr dros hir amser; ond yn awr, mae y rhai a'u herlidiasant gynt yn cydweithio gyda hwy o blaid rhyddid, gan ymdrechu i symud melldith yr America ymaith, sef caethwasiaeth i dragywyddol ddifodiad.

Mae cymeriad y Cymry fel gwladychwyr a dinasyddion yn uchel yn ngolwg yr Americaniaid. Ystyrir hwy fel cenedl yn ddynion heddychol, diwyd, a llafurus; er eu bod (fel y sylwasom o'r blaen yn aml) yn isel eu hamgylchiadau pan yn dyfod i'r wlad hon, y maent yn dyfod yn fuan trwy eu cynnildeb a'u diwydrwydd, i sefyllfaoedd cysurus yn y byd. Gallwn sylwi mai y peth penaf sydd gan lawer o honynt mewn golwg o bethau y byd hwn, ydyw cael meddiant o dyddyn o dir, a thalu am dano, a gwneyd cartref cysurus iddynt eu hunain a'u teuluoedd. Y mae yn wir, fod rhai eithriadau yn y peth hyn; ond felly y mae gyda llawer, ac y mae llawer o honynt yn llwyddo yn mhell tu hwnt i'w dysgwyliadau yn hyn. Gallem enwi llawer o ffeithiau er profi hyn, ond caiff un neu ddwy wneyd ar hyn o bryd. Daeth Mr. Rees Evans, i'r ardal hon lawer o flynyddoedd yn ol, ac yr oedd yn hollol dlawd fel llawer eraill. Bu yn gweithio wrth y dydd, yn Utica, yn cario *bricks* a *mortar* i'r adeiladwyr. Prynodd un o'r tyddynod goreu ar lan yr afon Mohawk—talodd am dano er ys llawer blwyddyn, a bu farw yn ddiweddar yn un o'r rhai cyfoethocaf yn mhlwyf Marcy. Gellid coffau llawer o rai tebyg iddo yn Steuben a Remsen, wedi dyfod i gyfoeth a dylanwad mawr.

Y mae yn Utica hefyd lawer o gelfyddydwyr wedi dyfod i sefyllfaoedd cysurus, ac y maent yn gyffredin yn byw yn eu tai eu hunain.

Nid llawer o'r Cymry sydd yn fasnachwyr, ond y mae ambell un wedi llwyddo yn rhyfedd mewn marsiandiaeth. Coffawn un engraifft o hyn. Daeth bachgen tlawd yma o Ddeheudir Cymru; bu am amser yn gofalu am fuwch a cheffyl ei feistr. Ei enw oedd John Williams. Daeth Mr. Williams yn un o'r masnachwyr mwyaf llwyddiannus a fu erioed yn Utica, a daeth yn gyfoethog iawn. Yr oedd ei fywyd yn arddangosiad o'r hyn a ellir ei ennill trwy uniondeb a gonestrwydd, penderfyniad a diwydrwydd heb gymhorth perthynasol i ddechreu yr anturiaeth. Bu farw Mr. John Williams yn y flwyddyn 1842, yn 52 mlwydd oed. Bu amryw o'r Cymry yn yr ardaloedd hyn o dro i dro mewn swyddau o anrhydedd, ac o ymddiried yn y wladwriaeth, yn aelodau o Ddeddfwneuthurfa y Dalaeth, yn farnwyr, yn ucholygwyr, yn ynadon heddwch, yn henaduriaid yn y ddinas, &c. Nid ydyw yn ormod i ddyweyd

fod y Cymry mor uchel eu cymeriad, ac yn gymaint eu dylanwad yn ol eu rhifedi a neb o'u cymydogion tramor yn yr America.

Ar ol manwl ymholi ac ymchwilio, i nifer y Cymry yn Utica a'r Amgylchoedd, yr ydym yn cael seiliau i gredu fod o bymtheg i ugain mil o honynt yn preswylio yma yn awr; yr hyn a ddengys gynnydd dirfawr yn ystod y deugain mlynedd diweddaf.

---

## PENNOD VII.

### SEFYLLFA CREFYDD YN MYSG Y GENEDL.

UN o hynodion y Cymry fel cenedl yn Hen Wlad eu tadau, ac yn mhob gwlad yr ymfudant iddynt ydyw eu hymlyniad diysgog wrth eu crefydd. Daeth miloedd o Gymry i'r wlad hon yn dlawd ac isel eu hamgylchiadau, heb ond dillad gwaelion i'w gwisgo, ac heb arian i brynu angenrheidiau bywyd. Ond, yr oeddent yn feddiannol ar barch i Dduw, ac i'w air; ac yr oeddent yn meddu calon gynnes o gariad at y Gwaredwr. Rhoddasant brawf o hyn yn mhob cwr o'r wlad ag yr aethant iddo. Yn mhob lle y ceisiasant bebyll iddynt eu hunain, codasant hefyd allorau i'r Arglwydd, ac fel yr oedd eu hamgylchiadau bydol yn gwellau, yr oedd eu haddoldai hefyd yn cael eu gwellau yn gyfatebol. Er fod y symudiadau aml sydd yn y wlad hon yn anfanteisiol i lwyddiant a chysur yr eglwysi mewn llawer ardal; eto gellir gweled yn amlwg fod crefydd a'i hegwyddorion yn ennill tir yn mysg y Cymry. Nid ydyw llafur ffyddloniaid Seion yn myned yn ofer. Dywedasom eisoes am y cynnydd sydd wedi bod ar yr eglwysi Cymreig yn yr ardaloedd hyn.

Y mae adfywiadau crefyddol grymus wedi bod yn Utica a'i hamgylchoedd ar wahanol amserau. Gwelsom ein hunain 89 o bersonau yn Utica, yn cael eu derbyn at fwrdd yr Arglwydd ar yr un Sabboth. Yr oedd hyn tua'r flwyddyn 1838.

Bu amser dymunol gyda chrefydd yn y cylchoedd hyn tua y flwyddyn 1858; ychwanegwyd llawer at yr eglwysi, ac ni ellir dyweyd yn awr fod Seion heb neb yn ei cheisio. Ond cwynir yn gyffredin y dyddiau hyn, fod cysgadrwydd a marweidd-dra wedi ymdaenu dros yr eglwysi. Ni chyfyngir y gwynfan hon o fewn cylch un enwad; ond ymddengys fod pob enwad o grefyddwyr i raddau yn teimlo, ac yn cwyno, ond y mae hyd yn nod cwyno yn arwydd o fywyd. Nid yw y marw yn teimlo nac yn cwyno. Y

mae bod cwynfan yn y gwersyll yn profi nad ydyw y clefyd hwn i farwolaeth.

Gwelir eto adfywiad ar Seion. Mae yn Utica a'i hamgylchoedd, laweroedd ag sydd "yn hoffi ei meini, ac yn tosturio wrth ei llwch hi." Y mae yma lawer o weithwyr ffyddlon ar y maes, ac y maent am gael gweled crefydd Crist yn nghalonau cenedl y Cymry. "Ni orphwysant hyd oni chaffont le i'r Arglwydd, a phreswylfod i rymus Dduw Jacob."

Meddyliasom unwaith am ysgrifenu yn helaethach ar ragoriaeth a diffygion ein cenedl; ond yr ydym yn cofio mai hyn oedd un o destynau yr Eisteddfod ddiweddaf, ac yr ydym yn gweled fod ein traethawd wedi chwyddo eisoes yn llawer mwy nag a feddyliasom ar y dechreu, a rhaid rhoddi terfyn iddo.

Cymerasom gryn draul a manyldra i grynhoi ei ddefnyddiau. Pa faint bynag o wallau cyfansoddiadol sydd ynddo, credwn fod yr holl hanes yn ffeithiau anwadadwy. Yr ydym yn dymuno pob daioni i'n brodyr, sef ein cenedl yn ol y cnawd. Na foed iddynt byth fod yn euog o'u gwadu eu hunain na'u hiaith. Boed iddynt efelychu y cenedloedd y maent yn byw yn eu mysg, yn mhob peth rhinweddol, a gochelyd eu camweddau a'u haml ddiffygion.

Uchel-gais y Cymry fyddo am ragori mewn rhinwedd a gwir ddefnyddioldeb, yn mhob swydd wladol ac eglwysig a ymddiriedir iddynt. Boed iddynt fod yn bwyllog, unplyg a gonest. Na weler un Cymro byth yn feddw, mewn carchar, nac ar grogbren. Cyfiawnder a sobrwydd fyddo meini eu dwyfroneg, a chrefydd yr Arglwydd Iesu fyddo yn goron ar eu pen. "Oes y byd" i'r Cymry, a'u hiaith, os rhodiant lwybrau rhinwedd; ond difoder y genedl cyn yr ymollyngant i wadu dwyfoldeb y Beibl, na gwaradwyddo Arglwydd Dduw eu tadau.

*Tach.* 21*ain*, 1859. EZRA.

---

ARGRAFFWYD GAN R. R. MEREDITH, ROME, N. Y.

3 2044 018 764 910

THE BORROWER WILL BE CHARGED AN OVERDUE FEE IF THIS BOOK IS NOT RETURNED TO THE LIBRARY ON OR BEFORE THE LAST DATE STAMPED BELOW. NON-RECEIPT OF OVERDUE NOTICES DOES NOT EXEMPT THE BORROWER FROM OVERDUE FEES.

Harvard College Widener Library
Cambridge, MA 02138 (617) 495-2413

WIDENER
SEP 1 0 1994
BOOK DUE

WIDENER
MAR 1 0 1994